PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU GRADD, SEMESTER 2

MAI 2009

ADDYSG

LEFEL 3

PAPUR: ED33920 CULTURAL DIVERSITY IN EDUCATION

AMSER: TAIR AWR

ATEBWCH *DRI* CHWESTIWN

1. *"Ni ddylai unrhyw berson ifanc, o ba gefndir bynnag, adael yr ysgol heb gael ei ddysgu a'i baratoi am heriau bywyd yn ein cymdeithas amlddiwylliannol, amlgrefydd"* (QCA, 2007). Trafodwch yn gryno yr athroniaeth y tu ôl i'r datganiad hwn ac yna ystyriwch rai o oblygiadau ymarferol ac anhawsterau tybiedig yr athroniaeth i ysgolion yng Nghymru a Lloegr.

2. Cymharwch yn feirniadol wahanol enghreifftiau o ymgymhathu rhwng diwylliannau ac eglurwch, gan roi enghreifftiau, sut y gall y berthynas rhyngddynt gael effaith ar gysylltiadau cymdeithasol.

3. *"Er mwyn sicrhau llwyddiant gwybyddol ac academaidd mewn ail iaith, rhaid i rugledd myfyriwr yn ei famiaith, yn llafar ac yn ysgrifenedig, fod wedi ei ddatblygu i lefel wybyddol uchel"* (Ovando a Collier, 1998: 89). Eglurwch rai o'r dadleuon a gyflwynir i gefnogi'r datganiad hwn a thrafodwch y goblygiadau sydd iddo i gyfundrefnau addysg dwyieithog ac uniaith.

4. Gwerthuswch gynllun presennol Llywodraeth San Steffan i hyrwyddo ymdeimlad cyffredin o 'Brydeindod' mewn addysg, gan gysylltu'ch safbwynt â damcaniaethau hanfodyddol a gwrth-hanfodyddol ynglŷn â hunaniaeth.

5. Cymharwch â'i gilydd batrymau cyrhaeddiad gwahanol grwpiadau ethnig mewn ysgolion yng Nghymru a/neu Lloegr a thrafodwch rai o'r ffactorau pwysig sydd o bosib yn cyfrannu at y gwahaniaethau.

6. *"...mae canllawiau statudol a'r gyfraith fel ei gilydd yn mynnu bod athrawon yn ymdrin â hiliaeth, amrywioldeb, a chynhwysiant – nid yn unig mewn gwersi ABICh neu ddinasyddiaeth ond ar draws y cwricwlwm."* (QCA, 2007). Disgrifiwch a thrafod sut y disgwylir i ysgolion weithredu a gwerthuso arferion da mewn ymateb i ddyletswyddau Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac argymhellion Ymchwiliad Stephen Lawrence.